

mam a merch

SIÂN ELERI ROBERTS a MEGAN DAFYDD

SIÂN

Ym Mhencader, Sir Gaerfyrddin y magwyd fi a phan oeddwn i'n fach roedden ni'n byw'r drws nesa i fy hen fam-gu a'm hen dad-cu. Bu Jack Enoch yn gweithio ar y steshon ac roedd y teulu'n eglwyswr selog.

Pan oedd Megan yn bedair oed, symudon ni o bentref Trefor i dyddyn o'r enw Tir Du, ar y cyrion, lle bu ei hen nain a'i hen daid hithau yn ffermio. Hen daid arall i Megan oedd gyrrwr cyntaf y cwmni bysus lleol, y Clynnog & Trefor Motor Company neu'r Moto Coch. Felly mae gan y ddwy ohonom wreiddiau yn y pentrefi lle magwyd ni.

Dwi'n cofio ymarfer canu yn yr Ysgol Sul pan o'n i'n fach, ac un o'r oedolion yn troi at un arall gan ddweud yn anobeithiol, "Ond roedd yr Enochs I GYD yn gallu canu". Pe bawn i'n cael dewis rhyw ddawn, dwi'n meddwl mai'r ddawn i ganu alto fyddai honno ac rwy'n hynod falch fod Megan wedi ei chael.

Erbyn hyn, mae gen i wyrion a dyw fy niffyg talent yn mennu dim ar Casi (2½) a Nedw (1½). Bydd Casi'n gorchymyn "Cana bins, mam-gu" a minnau'n ufuddhau: "A million housewives every day, pick up a tin of beans and say, *Beanz Meanz Heinz*" – er nad yw hi'n deall Saesneg!

Er mai yn Sir Gaerfyrddin y mae Pencader, mae gen i fwy o dynfa am Sir Aberteifi. Caerfyrddin oedd ein tre siopa a phictiwr, ond i Landysul yr es i'r ysgol uwchradd a dyna lle'r oedd ein hadloniant; ac i draethau'r Cei, Llangrannog a Phenbryn y bydden ni'n mynd yn yr haf. Acen Ceredigion yw'r acen hyfrydaf yng Nghymru a threuliais bum mlynedd hynod o hapus yn Aberystwyth.

Roeddwn i wrth fy modd, felly, pan ddewisodd Megan fynd i Aber i'r coleg. Ro'n i'n digwydd bod yno ychydig ar ôl iddi ddechrau, a dyma'i thecstio i weld a oedd hi'n rhydd am baned. "Sori," medde hi, "ffrind newydd brynu goldfish a 'dan ni'n mynd ag o'nôl i Bantycelyn mewn tacsî." Tacsî – yn

Aberystwyth?! A rhoi pysgodyn aur ei ffrind newydd o flaen ei mam?! Ond rŷn ni wedi cael sawl wâc ar y prom a sawl paned ers hynny gan fod Megan wedi aros yno i weithio.

Ro'n i'n dychmygu mai dyna a wnawn innau hefyd – mae gan Aber ryw afael rhyfedd ar bobl. Ond es i brotest ym Mangor un penwythnos gan aros yn Nhrefor gyda ffrindiau i ffrind. Daeth ffrind i'r ffrindiau i de a dyna ni, es i byth adre!

Ar ôl priodi Dafydd, bues i'n gweithio ar Bapurau'r Herald am ryw bum mlynedd. Rhoddais y gorau iddi pan aeth fy rhieni yn sâl a marw o ganser o fewn misoedd i'w gilydd yn eu pumdegau canol. Ar ôl dychwelyd i Drefor, penderfynais ddechrau cyfieithu ar fy liwt fy hunan. Yn fuan wedyn, cyrhaeddodd Guto, ac yna Elis a Megan.

Erbyn hyn, mae'r Pair Iaith yn ffrwtian ers dros 28 mlynedd a'r gwaith amrywiol yn fy siwtio i'r dim. Un peth sy wedi bod o help yw'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n ffordd o gadw mewn cysylltiad â'r byd mawr tu allan. Mae'n siŵr mai



Siân a Megan â'r Eiffel yn y cefndir

dyna pam yr ymaelodais â Merched y Wawr hefyd. Mae'n braf cysylltu â phobl go iawn – ac rwy'n rhyfeddu'n barhaus bod cynifer o bobl ddifyr yn byw o fewn cyrraedd i ddod i'n diddanu!

Ro'n i'n rhyw obeithio mai bachgen fyddai Megan hefyd – am ddau brif reswm, rhag i mi orfod gwneud pethau cymhleth â'i gwallt, a rhag i mi orfod mynd i siopa dillad. Llwyddais i osgoi'r *French plaits*, ond ar ambell brynhawn yn sefyllian y tu allan i ystafelloedd newid New Look, mi fyddwn yn barod iawn i'w newid hi am fachgen!

Er iddi fod ym mhob Eisteddfod Genedlaethol, doedd gan Megan ddim yr un diddordeb â'i brodyr yn y gweithgareddau (nes cyrraedd oedran Maes B!). Yn wir, trwy dwyll y perswadias hi i ddod i'r Pafiliwn yn Eisteddfod Llanelli 2014 pan enillodd Guto'r Goron!

Er yr atgofion hapus o ddathlu, roedd honno'n Steddfod ryfedd i mi. Rhyw flwyddyn ynghynt, dechreuais gael pinnau bach yn fy nhraed a theimlad oer yn fy nghoes chwith.

Ar ôl profion, penderfynwyd bod arna'i ddiabetes a chael tabledi ato. Yna, cyn Eisteddfod Llanelli, mi ges i ryw deimlad rhyfedd, oer o'nghanol i lawr. Ro'n i'n gofalu am fy mam-yng-nghyfraith anabl ddechrau'r wythnos, gan logi sgwter iddi ar y Maes. Synhwyrn fod rhywbeth difrifol arna'i a meddyliais tybed ymhen faint o amser fyddai angen sgwter arna innau.

Erbyn diwedd y flwyddyn ro'n i wedi cael diagnosis o MS. Gwendid yn fy nghoes chwith yw fy mhrif symptom er bod nifer o symptomau eraill y clefyd yn fy mhoeni i raddau hefyd.

Dair blynedd yn ddiweddarach, cefais sgwter ar gyfer Steddfod Bodedern – anrheg annisgwyl gan fy ngŵr ar ôl i mi gael trafferth cyrraedd y Pafiliwn o'mhabell ar fy nwy ffon i weld *A Oes Heddwch?*

A minnau wedi bod eisiau ymweld â Sbaen ers 40 mlynedd, cytunodd Megan ddod gyda fi y llynedd. Dewiswyd Madrid am fod y canol yn eitha cryno a'r rhan fwy o bethau o fewn pellter cerdded – hyd yn oed i fi. Trefnais gael *cymorth arbennig* yn y meysydd awyr, cael benthg cadair olwyn yn yr orielau celf ac ati ac fe gawson ni amser ardderchog yn crwydro'r ddinas. Dyddiau cytûn o ymlacio a chwerthin. Ro'n i'n wirioneddol ddiolchgar iddi am gytuno i ddod a minnau'n dipyn o *liability* erbyn hyn – wir, dwi'n falch weithiau' mod i wedi cael merch wedi'r cyfan!!

MEGAN

Yn Nhrefor ges i fy magu a dwi'n falch o gael dweud mai yno ces i'ngeni hefyd ar ôl i mi gyrraedd ar frys, braidd, ryw noson bron i 23 o flnyddoedd yn ôl. "Treforian" go iawn.

Es i Ysgol yr Eiffel, wedyn i Ysgol Glan y Môr ym Mhwlheli ac yna i'r Coleg Top (Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli). Bellach, mae gen i radd yn y Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth.

Dwi wedi etifeddu cariad fy mam at Aberystwyth. Roedd dod yma i'r brifysgol yn gam naturiol ac yn llwybr saff i mi ei droedio, ond weithiau dwi'n difaru na wnes i herio'n hun i edrych ar opsiynau gwahanol.

Roedd gen i wastad diddordeb ym myd y sioeau cerdd. Yn wahanol i fy mrodyr, doedd y cystadlaethau ysgrifennu mewn eisteddfodau byth yn mynd â'mryd i, er'mod i'n fodlon eistedd yn gwrando ar ragbrofion yr Unawd Sioe Gerdd am oriau.

Yn yr ysgol uwchradd, roeddwn i'n lwcus iawn o gael athrawon cerdd a chanu a agorodd ddrysau i mi o ran cystadlu a chael cyfle i berfformio. Un o'r troeon olaf i mi gystadlu yn yr unawd sioe gerdd yn y chweched, ges i lwyfan yn yr eisteddfod sir ac er mai trydydd (cam!) ges i, dwi'n cofio dod oddi ar y llwyfan a gweld dagrau yn llygaid mam – doedd y canlyniad yn poeni fawr ddim arna'i wedyn. Weithiau dwi'n difaru peidio mynd ymlaen i goleg cerdd a drama – pwy a wŷr, efallai y byswn i'n serennu yn y West End erbyn hyn... ond efallai ddim!

Pe bawn i wedi gwneud hynny, fyddwn i byth wedi cael



Siân a Megan ar y cyfryngau cymdeithasol

profi bywyd rhyfedd ond rhagorol myfyrwraig ac yna bywyd "normal" yn Aberystwyth. Dwi'n gweithio i Simon Thomas, Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros y Canolbarth a'r Gorllewin. Dwi wrth fy modd yn fy swydd ac yn falch o gael y cyfle i gyfrannu rhywfaint at waith aelod a phlaid sy'n gwneud cymaint droson ni fel cenedl. Er nad oedd gen i'r un diddordeb mewn gwleidyddiaeth â'mrodyr pan o'n i'n tyfu fyny, ers i mi gyrraedd Aberystwyth byddai'n amhosibl i mi beidio bod â diddordeb yng ngwleidyddiaeth yr oes hon.

Dwi, fel fy mam, yn treulio lot o amser ar y cyfryngau cymdeithasol. Dwi'n credu bod gan mam bresenoldeb mwy na fi arnyn nhw – mae hi'n fwy na bodlon rhannu ei barn a thafu golau ar bethau y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi eu hanwybyddu. Sylwais bod ganddi bresenoldeb ar Facebook pan dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty, adeg y diagnosis MS, a mynd ati i flogio am ei phrofiadau. Daeth amryw o bobl ata'i yn synnu at ei phositiffrwydd a'i pharodrwydd i godi gwên mewn cyfnod go anodd.

Ar y funud, dwi'n cael fy nhynnu i bob cyfeiriad, gydag awch anferth i aros yn Aber am byth a'r un awch i symud adref am gyfnod. Hynny wedyn yn cael ei herio gan ysfa i symud i'r Almaen er mwyn cael profiad cwbl newydd mewn gwlad ddiddorol a chyffrous. Ond eto, er mor dda yw technoleg y dyddie hyn, dwi'n credu y byddai hiraeth am fy nghartref, am fy nheulu ac, ia wir, am mam, yn fy nghadw i yma cyn i mi hyd yn oed gyrraedd y maes awyr.

Mae'n rhyfedd meddwl i mi gredu na fyddwn i a mam byth yn gweld llygad yn llygad pan o'n i yn fy ardddegau cynnar ond erbyn hyn 'da ni'n deall ein gilydd, a phan dw i'n meddwl amdani'n colli ei rhieni hi mor ifanc, dwi'n sylwi pa mor lwcus ydw i i fedru ei chyfri hi'n ffrind.

Sut fyswn i'n disgrifio fy mam? Fel dwi'n mynd yn hŷn, dwi'n gweld ochrau gwahanol iddi. Er bod yr MS wedi bod yn ergyd, 'da ni wedi medru chwerthin yn ei wyneb sawl gwaith ac mae hi wedi goroesi sawl her y mae o wedi eu taflu ati – fel jetio i Madrid, gwersylla ar ei phen ei hun yn Steddfod Ynys Môn a cherdded fyny a lawr y grisie sawl gwaith yn y boreau i 'neffro fi!

Dwi'n credu bod '*weird but wonderful*' yn taro'r hoelen ar ei phen.